

GWNEUD NEWID MAKE A CHANGE

SYNIADAU AR AGOR AR GYFER EICH MEDDYLIAU
IDEAS OPEN FOR YOUR THOUGHTS



Undeb Bangor

Undeb Myfyrwyr | Students' Union

COMMITTEE SAFEGUARDING TRAINING

I am of the firm belief that committee members for both AU Sports and normal clubs should receive safeguarding training. Of course, Inclusivity & Wellbeing officers are trained appropriately for their role in order to make adjustments for accessibility purposes, to work hard to make sure every member feels included and to ensure that everyone feels safe and comfortable within a sport/club. However, we are reminded consistently as committee members that we are leaders. In any other position of leadership, for the most part, you are trained in safeguarding. I believe this should be especially prominent at University, where within our clubs, we are presented with people from many different backgrounds – people moving away from home for the first time, vulnerable people, etc. Surely, as leaders of our community, we should be trained in order to spot safeguarding concerns and know how to handle such incidents if they were to arise within our communities.

The end goal is to assure that committee members are trained in safeguarding. I believe it is an essential element to being a leader within a community, and being able to help protect members.

I request that the SU takes a stance on providing safeguarding training to their students who elect themselves to run a club. The University has a duty of care over their students, and therefore, within student-ran clubs, students should be taught and educated on how to protect potentially vulnerable members to avoid potentially very bad outcomes. If students are not trained in safeguarding, student leaders are unable to efficiently protect the students they are leading.

HYFFORDDIANT DIOGELU PWYLLGOR

Rydw i'n credu'n gryf y dylai aelodau pwyllgor Chwaraeon UA a chlybiau arferol dderbyn hyfforddiant diogelu. Wrth gwrs, mae Swyddogion Cynwysoldeb a Lles yn cael eu hyfforddi'n addas ar gyfer eu rôl, er mwyn gallu gwneud addasiadau am bwrpasau hygyrchedd, i weithio'n galed i sicrhau fod pob aelod yn cael eu cynnwys ac i sicrhau fod pawb yn teimlo'n saff ac yn gyfforddus o fewn tîm chwaraeon/clwb. Fodd bynnag, rydyn ni fel aelodau pwyllgor yn cael ein hatgoffa'n gyson ein bod ni'n arweinwyr. Mewn unrhyw safle o awdurdod arall, y rhan fwyaf o'r amser, cewch chi hyfforddiant diogelu. Credaf y dylai hyn fod yn arbennig o berthnasol yn y Brifysgol lle, o fewn ein clybiau, mae gofyn i ni drin â phobl o lawer o gefndiroedd gwahanol – pobl yn symud i ffwrdd o gartref am y tro cyntaf, pobl fregus, ayyb. Yn sicr, fel arweinwyr ein cymuned, dylem ni gael hyfforddiant i allu adnabod pryderon diogelu ac i ddeall sut mae delio efo materion fel hyn os ydyn nhw'n codi yn ein cymunedau.

Y nod terfynol ydi i sicrhau fod aelodau pwyllgor yn cael hyfforddiant diogelu. Credaf ei fod yn rhan hanfodol o fod yn arweinydd o fewn cymuned, yn ogystal â'r gallu i helpu i amddiffyn aelodau.

Gofynnaf fod yr UM yn cymryd safle ar ddarparu hyfforddiant diogelu i'w myfyrwyr sy'n ethol eu hunain i redeg clwb. Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal dros eu myfyrwyr, ac felly, o fewn clybiau wedi eu rhedeg gan fyfyrwyr, dylai myfyrwyr gael eu haddysgu ar sut i amddiffyn aelodau bregus posib i osgoi canlyniadau a all fod yn ddrwg iawn. Os na chaiff myfyrwyr hyfforddiant diogelu, ni all arweinwyr myfyrwyr amddiffyn y myfyrwyr maent yn arwain yn effeithiol.

BORTH X DESERVES BETTER – IMPROVE BORTH X ACCOMMODATION

This campaign calls for urgent improvements to Borth X accommodation and other buildings across the Ffriddoedd Village site that are no longer meeting the standards students should reasonably expect from university accommodation.

As a student nurse who previously lived in Borth X, I have experienced these issues first-hand. Frankly, the current state of the accommodation is not good enough. Students are paying expensive accommodation fees, yet many are left dealing with ongoing plumbing problems, moldy rooms, inadequate shower facilities and communal areas that are not always maintained to an acceptable standard. This is not simply about wanting nicer accommodation. It is about the basic standards of living, hygiene, safety, dignity and respect that every student deserves.

Why does this matter?

1. Students are paying too much for accommodation that is not good enough. University accommodation is a significant financial commitment, particularly for students who rely on student finance or have limited incomes. Students should not have to accept poor living conditions despite paying substantial fees. Plumbing issues, mold and inadequate facilities should not become normalized simply because students are living in university accommodation.
2. Mold, maintenance and hygiene need to be taken seriously. Moldy rooms and unresolved plumbing problems are more than cosmetic inconveniences. They can affect students' comfort, wellbeing and, depending on the severity, their health. During the summer months, overflowing or unemptied bins can also create unpleasant and unhygienic communal environments. Students deserve clean, well-maintained living spaces all year round.

3. Student nurses deserve a suitable environment to rest and recover. Unlike some students, student nurses undertake clinical placements alongside their university studies. These placements can involve long shifts, early starts, emotional pressure and significant responsibility. Having a clean, quiet and comfortable place to rest is essential. Students should not have to return from demanding placement days to accommodation that creates further stress.

4. Noise and privacy concerns must be addressed. Other accommodation buildings on the Ffriddoedd site are seemingly rented out to other occupants, creating additional concerns for students living nearby. Loud shouting and people looking into the accommodation can leave residents feeling disturbed and uncomfortable, particularly when they are trying to rest between placements. Students living in these buildings throughout the academic year should not have their privacy, sleep and ability to recover compromised by circumstances outside their control. Appropriate measures must be introduced to protect residents' peace, privacy and wellbeing.

5. Student nurses spend a significant amount of time living at Ffriddoedd Village. Student nurses are not simply living in university accommodation for a short period before moving on, we're through September to late August. We return to these buildings throughout the year while balancing lectures, assignments, examinations and clinical placements. We need accommodation that supports these commitments, rather than adding to the pressure we already face.

The building in general is just outdated while there is no other University accommodation for us to turn without being kicked out in July due to contracts.

This campaign is calling on Bangor University and the relevant accommodation management teams to:

- * Carry out an urgent, comprehensive inspection of Borth X and other affected accommodation buildings across Ffriddoedd Village.
- * Address existing maintenance problems, including plumbing faults, mould, inadequate shower facilities and communal waste management.
- * Commit to a clear refurbishment plan for buildings that are no longer fit for purpose, with transparent timescales and regular updates for residents.
- * Review accommodation costs and value for money in light of the conditions students are expect

I am asking Undeb Bangor to formally take a stance on the poor condition of Borth X and other affected accommodation at Ffriddoedd Village. I want the Students' Union to raise these concerns directly with the university, advocate for urgent repairs and refurbishment, and push for suitable alternative accommodation where necessary. Most importantly, I want the Union to stand alongside affected students, hold the university accountable and ensure that everyone has access to clean, safe and suitable accommodation that reflects the rent they pay.

I am happy to send a feedback form to other students who lived at Borth/Still live at Borth to provide evidence that this is a prominent issue.

MAE BORTH X YN HAEDDU GWELL – GWELLA LLETY BORTH X

Mae Borth X yn haeddu gwell.

Mae'r ymgyrch yma yn galw am welliannau brys i neuadd Borth X ac adeiladau eraill ar draws Pentref Ffriddoedd sydd ddim yn cyrraedd y safonau y dylai myfyrwyr ddisgwyl yn rhesymol gan neuaddau'r Brifysgol dim mwy.

Fel myfyriwr nyrsio sydd wedi byw yn Borth X o'r blaen, rydw i wedi profi'r problemau yma yn uniongyrchol. I fod yn onest, dydi cyflwr presennol y neuadd ddim yn ddigon da. Mae myfyrwyr yn talu ffioedd drud, ond eto mae llawer yn gorfod delio â phroblemau plymio parhaus, ystafelloedd gyda llwydni, cyfleusterau cawod annigonol, ac ardaloedd cyffredin sydd ddim wastad yn cael eu cadw i safon dderbyniol. Dim mater o fod eisiau neuadd neisiach yn unig ydi hyn.

Mae am safonau sylfaenol o fyw, hylendid, diogelwch, urddas a pharch mae pob myfyriwr yn ei haeddu.

Pam fod hyn yn bwysig?

1. Mae myfyrwyr yn talu gormod am neuaddau sydd ddim digon da.

Mae neuaddau'r Brifysgol yn ymrwymiad ariannol sylweddol, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr sy'n dibynnu ar gyllid myfyrwyr neu sydd efo incwm cyfyngedig. Dylai myfyrwyr ddim gorfod derbyn amodau byw gwael er eu bod yn talu ffioedd sylweddol. Ni ddylai problemau plymio, llwydni a chyfleusterau annigonol gael eu derbyn fel rhywbeth normal, dim ond gan fod myfyrwyr yn byw mewn neuaddau prifysgol.

2. Mae angen i lwydni, gwaith cynnal a chadw, a hylendid gael eu cymryd o ddifri. Mae ystafelloedd gyda llwydni a phroblemau plymio sydd ddim yn cael eu datrys yn fwy nac anhwylustod cosmetig. Gallent effeithio ar ba mor gyfforddus ydi myfyrwyr, yn ogystal â'u lles ac, mewn rhai sefyllfaoedd difrifol, eu hiechyd. Yn ystod misoedd yr haf, gall biniau gorlawn sydd ddim yn cael eu gwagio hefyd achosi amgylchiadau cymunedol amhleserus a di-hylendid. Mae myfyrwyr yn haeddu ardaloedd byw glân, sydd wedi eu cynnal yn dda trwy'r flwyddyn.

3. Mae myfyrwyr nyrsio yn haeddu amgylchedd addas i allu gorffwyo'n ddigonol. Yn wahanol i rai myfyrwyr, mae myfyrwyr nyrsio yn cymryd rhan mewn gwaith clinigol ar leoliad ynghyd â'u hastudiaethau. Gall y lleoliadau hyn gynnwys shifftiau hir, shifftiau sy'n dechrau'n gynnar, pwysau emosiynol a chyfrifoldeb sylweddol. Mae cael lle glân, tawel a chyfforddus i orffwyo yn hanfodol. Ni ddylai myfyrwyr orfod dychwelyd o leoliad gwaith heriol i neuadd sy'n achosi mwy o straen.

4. Rhaid cydnabod pryderon sŵn a phreifatrwydd.

Mae'n ymddangos fod neuaddau ar safle Ffriddoedd yn cael eu rhentu i denantiaid eraill, gan greu mwy o bryderon i fyfyrwyr sy'n byw gerllaw. Mae gweiddi uchel a phobl yn edrych mewn i'r neuaddau yn gallu gadael preswylwyr yn teimlo'n anghyfforddus ac aflonydd, yn enwedig pan maent yn ceisio gorffwys rhwng lleoliadau gwaith. Ni ddylai preifatrwydd, cwsg, na gallu'r myfyrwyr sy'n byw yn yr adeiladau hyn trwy'r flwyddyn academaidd i orffwyo gael eu hamharu gan amgylchiadau sydd tu hwnt i'w rheolaeth. Rhaid cyflwyno mesuron addas i amddiffyn heddwch, preifatrwydd a lles preswylwyr.

5. Mae myfyrwyr nyrsio yn treulio amser sylweddol yn byw ym Mhentref Ffriddoedd. Dydi myfyrwyr nyrsio ddim yn byw yn neuaddau'r Brifysgol am gyfnod byr yn unig cyn symud 'mlaen, rydyn ni yno o fis Medi at hwyr ym mis Awst. Rydyn ni'n dod yn ôl i'r adeiladau yma trwy'r flwyddyn rhwng darlithoedd, aseiniadau, arholiadau a gwaith clinigol ar leoliad. Rydyn ni angen llety sy'n cefnogi'r ymrwymadau hyn, yn lle ychwanegu at y pwysau rydyn ni'n wynebu'n barod.

Mae'r adeilad yn gyffredinol yn hen ac angen ei ddiweddarau, a does dim llety arall gan y Brifysgol i ni fynd ato heb gael ein cicio allan ym mis Gorffennaf oherwydd cytundebau.

Mae'r ymgyrch hwn yn galw ar Brifysgol Bangor a'r timau rheoli llety perthnasol i:

- I gynnal archwiliad brys cynhwysfawr o Borth X ac adeiladau eraill ar draws Pentref Ffriddoedd sydd yn cael eu heffeithio gan y problemau hyn.
- I gydnabod problemau cynnal a chadw sy'n bodoli'n barod, gan gynnwys problemau plymio, llwydni, cyfleusterau cawod annigonol, a'r ffordd mae gwastraff cymunedol yn cael ei drin.
- I ymrwmo i gynllun adnewyddu clir ar gyfer adeiladau sydd ddim yn addas i'w pwrpas dim mwy, efo amserlenni clir a diweddariadau rheolaidd ar gyfer y preswylwyr.
- I edrych dros gostau llety a'r gwerth mae pobl yn cael am eu pres o ystyried yr amodau mae disgwyl i fyfyrwyr wynebu.

Gofynnaf i Undeb Bangor gymryd safle yn swyddogol ar gyflwr gwael Borth X a lletyau eraill sy'n cael eu heffeithio ym Mhentref Ffriddoedd.

'Dw i eisiau i Undeb y Myfyrwyr godi'r pryderon hyn yn uniongyrchol efo'r Brifysgol, i ymgyrchu dros waith trwsio ac adnewyddu brys, ac i gefnogi'r galw am opsiynau eraill ar gyfer llety lle mae angen. Yn bwysicach fyth, 'dw i eisiau i'r Undeb sefyll efo'r myfyrwyr sy'n cael eu heffeithio, i ddal y Brifysgol yn atebol ac i sicrhau fod gan bawb llety glân, saff ac addas sy'n adlewyrchiad teg o'r rhent maent yn talu. Rydw i'n hapus i anfon ffurflen adborth at fyfyrwyr eraill sydd wedi, neu dal yn byw yn Borth er mwyn darparu tystiolaeth fod hwn yn broblem sylweddol.

CYFLWYNWCH EICH MEDDYLIAU

SUBMIT YOUR THOUGHTS HERE

**MAE'R SYNIAD HWN AR AGOR A GYFER
ADBORTH GAN FYFYRWYR TAN 4 TACHWEDD
2026.**

**BYDD EICH ADBORTH YN HELPU I LUNIO EIN
HYMATEB I'R BRIFYSGOL.**

DWEUD EICH DWEUD!

**THIS SUBMISSION IS OPEN FOR FEEDBACK
FROM STUDENTS UNTIL 4TH NOVEMBER 2026.**

**YOUR FEEDBACK WILL THEN HELP US SHAPE
OUR RESPONSE AND WORK WITH THE
UNIVERSITY.**

HAVE YOUR SAY!



Undeb Bangor
Undeb Myfyrwyr | Students' Union